

## Y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd

### Pencadlys yr Heddlu 4 Medi 2019

#### COFNODION

#### Yn bresennol

---

#### Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

- Lee Jones – Cadeirydd (LJ) Prif Weithredwr (Dros Dro)
- Hannah Jenkins-Jones (HJJ) Arweinydd Strategol ar gyfer Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb
- Sarah Mahon (SM) Swyddog Ymgysylltu a Sicrwydd
- Jackie Trow (JT) Arweinydd Strategol ar gyfer Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth

#### Heddlu De Cymru

- Nick Bellamy Ditectif Arolygydd
- Jenny Gilmer (JG) Prif Gwnstabl Cynorthwyol
- Alistair Mitchell (AM) Ditectif Uwch-arolygydd
- Mark Stevenson (MS) Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol
- Carol Woodward (CW) Rheolwr Sicrwydd ac Arolygu

#### Lee Jones (Cadeirydd)

##### 1. Croeso a Chyflwyniadau

1.1 Diolchodd LJ i aelodau'r bwrdd am fynychu, a nododd ymddiheuriadau. Dywedodd mai ffocws y cyfarfod fyddai trafod camau gweithredu ac argymhellion cyfarfodydd blaenorol, yn ogystal â chael diweddariad ar safbwynt yr heddlu o ran ymateb i dwyll.

##### 2. Cofnodion a Chamau Gweithredu

2.1 Cyfeiriodd LJ at y camau gweithredu a nodwyd yn y cyfarfod at wraidd y mater a gynhaliwyd ar 14 Awst, a rhoddwyd y diweddariadau canlynol:

Cam Gweithredu	Perchennog	Diweddariad
Rhannu adroddiad ar waith hapsamplu achosion o gam-drin domestig â thîm y comisiynydd.	Phil Ashby	Dywedodd CW fod y gwasanaethau corfforaethol wrthi'n ystyried amrywiaeth o gyfraddau canlyniadau, a oedd yn cynnwys cam-drin domestig, ond nad oedd hyn yn ymwneud yn benodol â hyfforddiant. Unwaith y byddai'r adroddiad wedi'i gymeradwyo gan y Prif Swyddogion, gellid wedyn ei rannu â thîm y Comisiynydd.

		Dyweddodd CW wrth y bwrdd hefyd fod Uned Diogelu'r Cyhoedd yn ystyried adfywio'r broses hapsamplu yn gyffredinol. Gellid rhannu hyn ym mis Hydref. CW/PA fyddai'r pwyntiau cyswllt.
Rhoi diweddariad i dîm y Comisiynydd ynglŷn â'r pecyn gwybodaeth busnes i nodi risgiau a uwchgyfeiriwyd.	Gwasanaethau Corfforaethol	Oherwydd y cyfnod byr o amser rhwng y cyfarfod at wraidd y mater a'r cyfarfod uwchgyfeirio, gofynnodd LJ am i ddiweddariad gael ei roi ar y cam gweithredu hwn yn y cyfarfod uwchgyfeirio ym mis Rhagfyr. Y Prif Arolygydd Paul Peters fyddai'r pwynt cyswllt ar gyfer y cam gweithredu hwn.
Tîm y Comisiynydd i ymgymryd â gwaith hapsamplu mewn perthynas â chwynion yn ymwneud â dioddefwyr sydd wedi cysylltu â'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus am ddiweddariadau.	Jackie Trow	Byddai tîm y Comisiynydd yn ymgymryd â'r gwaith hapsamplu ym mis Hydref ac yn rhannu'r canfyddiadau yn y cyfarfod uwchgyfeirio ym mis Rhagfyr.
Ystyried sut y gellir ystyried proffiliau stelcwyr a throeddwyr nad ydynt yn gysylltiedig â cham-drin domestig drwy'r Cyd-adolygiad Rheoli Troeddwyr.	Jason Davies	Dyweddodd LJ y byddai tîm y Comisiynydd yn cydweithio ag Emma Wool i nodi dull o fynd ar drywydd hyn, a chytuno arno.
Cydweithio â chadeirydd y gweithgor stelcio ac aflonyddu i nodi llwyfannau cyfathrebu perthnasol ar gyfer rhannu gwersi a ddysgwyd	Jason Davies	Tîm y Comisiynydd i gysylltu â Jason Davies yn dilyn y cyfarfod.
Rhannu ymchwil werthuso gan Brifysgol Abertawe mewn perthynas â'r gwasanaeth brysbennu â thîm y Comisiynydd.	Gwasanaethau Corfforaethol	Gofynnodd LJ am linell amser ar gyfer y broses o rannu'r ymchwil. Awgrymodd CW y dylai'r adroddiad fod ar gael erbyn diwedd mis Medi.
Uwchgyfeirio'r mater yn ymwneud ag argaeledd data ar lechyd i'r Comisiynydd ei drafod yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona.	Tîm y Comisiynydd	Tîm y Comisiynydd i fynd ar drywydd y mater.
Cyflwyno papur cynnig drafft mewn perthynas â sicrhau cyllid ar gyfer y gwasanaeth brysbennu i Lywodraeth Cymru (yn seiliedig ar ymchwil werthuso gan Brifysgol Abertawe).	Tîm y Comisiynydd	Dyweddodd LJ fod y Comisiynydd wedi gofyn i Helen Bennett ddrafftio cynnig. Nododd LJ y byddai'n gwerthfawrogi cael gwybod am faterion/gwybodaeth yn gynnar er mwyn hysbysu'r Comisiynydd a helpu i ddylanwadu ar benderfyniadau.

### **3. Casgliadau ac Argymhellion**

- 3.1 Cyflwynodd LJ yr adroddiad ar stelcio, aflonyddu a rheolaeth drwy orfodaeth, a oedd yn crynhoi'r casgliadau allweddol ac yn awgrymu argymhellion yn dilyn y cyfarfod at wraidd y mater diweddar. Dywedodd LJ fod yr adroddiad i'w nodi, gyda'r bwriad o ailystyried y rhaglenni gwaith yn y cyfarfod uwchgyfeirio ym mis Rhagfyr. Yn fras, cafodd yr argymhellion eu rhannu'n dri maes: cyfathrebu mewnol a hyfforddiant, darparu gwasanaethau, a chyfathrebu allanol.

3.2 Cytunwyd ar yr argymhellion a byddent yn cael eu hailystyried yng nghyfarfod y bwrdd uwchgyfeirio ym mis Rhagfyr, lle byddai arweinwyr yn cael eu neilltuo i bob argymhelliad.

#### **4. Diweddariadau ar Argymhellion y Cyfarfod At Wraidd y Mater ynghylch Troseddau Casineb – Tabl Camau Gweithredu**

- 4.1 Trafododd y bwrdd yr argymhellion ynghylch troseddau casineb mewn perthynas â chyfathrebu mewnol a hyfforddiant. Dywedodd CW fod JW wedi cyfarfod â'r gwasanaeth dysgu a datblygu i ddiweddarau'r hyfforddiant ar gyfer swyddogion dan hyfforddiant. Nododd HJJ ei bod yr un mor bwysig bod swyddogion presennol yn cael sesiynau diweddarau, a oedd yn cynnwys profiadau ymarferol, er mwyn sicrhau bod swyddogion yn gallu gweld y tu hwnt i'r broses ac yn deall yr effaith ar ddioddefwyr.
- 4.2 Trafododd y bwrdd ffyrdd y gellid cynnwys negeseuon allweddol a phrofiadau ymarferol ym mhob rhan o'r sefydliad. Dywedodd CW wrth y bwrdd am ddiwrnodau codi ymwybyddiaeth adrannol a oedd wedi'u cynnal, a oedd yn cynnwys rhannu astudiaethau achos ac arferion da a gwael. Roedd aelodau o'r staff wedi ymateb yn dda i'r dull gweithredu hwn. Awgrymodd MS hefyd fod diwrnodau hyfforddi'r heddlu yn gyfle da i gynnwys modiwlau ar droseddau casineb. Cytunodd MS i rannu amserlen diwrnodau hyfforddi'r heddlu â thîm y Comisiynydd, er mwyn ystyried a yw hyn yn bosibilrwydd ar gyfer y dyfodol.
- 4.3 Dywedodd CW wrth y bwrdd fod y Rhaglen Deall Dioddefwyr bellach yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu er mwyn cael adborth gan ddioddefwyr. Roedd arolygon ar-lein wrthi'n cael eu datblygu ar gyfer dioddefwyr stelcio ac aflonyddu. Roedd arolygon ar-lein a dros y ffôn hefyd wedi cael eu datblygu ar gyfer dioddefwyr troseddau casineb.
- 4.4 Trafododd y bwrdd yr argymhellion ynghylch troseddau casineb mewn perthynas â chyfathrebu mewnol a chyhoeddusrwydd. Dywedodd SM y byddai'n cysylltu â'r adran Cyfathrebu Corfforaethol i sicrhau bod adborth ar droseddau casineb yn llywio strategaethau cyfathrebu yn y dyfodol.
- 4.5 Trafododd y bwrdd yr angen i flaengynllunio gwydnwch y Swyddog Troseddau Casineb. Nododd MS mai nod hirdymor y sefydliad yn gyffredinol oedd symud i ffwrdd oddi wrth rolau arbenigol, gan ddbynnu mwy ar ymgynghorwyr ac arbenigwyr a allai roi gwybodaeth i nifer ehangach o swyddogion a staff yn lle hynny.
- 4.6 Mewn ymateb i ymholiad gan ddioddefwyr, cadarnhaodd JG y gallai unigolyn cyswllt o drydydd parti neu gyfaill dynodedig weithredu ar ran dioddefwr yn y broses cyfiawnder adferol, ar yr amod bod y dioddefwr yn cytuno ar hyn. Dywedodd JG mai mantais cyfiawnder adferol oedd yr hyblygrwydd. Awgrymodd CW y byddai'n dod o hyd i union eiriad y broses a'i rannu â thîm y Comisiynydd fel y gellid ei rannu'n allanol.

#### **CAM GWEITHREDU**

- MS i rannu amserlen diwrnodau hyfforddi'r heddlu â thîm y Comisiynydd
- CW i rannu geiriad y broses cyfiawnder adferol â thîm y Comisiynydd.

#### **5. Diweddariadau ar Gamau Gweithredu Heb eu Cymryd y Bwrdd (tabl camau gweithredu)**

5.1 Trafododd y bwrdd yr argymhellion ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd Mark Brace yn cydweithio â'r arweinydd ymddygiad gwrthgymdeithasol i fynd ar drywydd y camau

gweithredu mewn perthynas â'r rhwymedi cymunedol a'r sbardun cymunedol. Byddai hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd.

- 5.2 Trafododd y bwrdd hygrychedd arolygon boddhad dioddefwyr gan mai dim ond ar-lein yr oeddent ar gael ar hyn o bryd. Nododd CW, wrth i'r uned Deall Dioddefwyr ehangu, y byddai'r tîm yn gallu cynyddu ei gapasiti i gael adborth drwy ddulliau eraill, megis dros y ffôn a thrwy grwpiau ffocws. Heb adnoddau cyfyngedig ar waith ar hyn o bryd, arolygon ar-lein oedd y man cychwyn o hyd, gyda chynlluniau ar waith i ychwanegu at hyn yn yr hirdymor.
- 5.3. Trafododd y bwrdd y camau gweithredu yn ymwneud â thaliadau bonws. Awgrymodd MS er bod gwahaniaeth rhwng dynion a menywod, barn yr heddlu oedd bod rhai pobl yn teimlo'n fwy cyfforddus yn gwneud 'dyletswyddau' annymunol yn hytrach na bod unrhyw annhegwch. Nododd HJJ ei phryderon ynglŷn â'r ffordd yr oedd staff yn cael gwybod am y taliad a sut i fanteisio arno, a'r weithdrefn gywir ar gyfer penderfynu sut roedd taliadau bonws yn cael eu gwneud. Heb ddim ar bapur, roedd hi'n anodd i bobl wybod beth y gallent ei gael a phryd, ac nid oedd yn glir pwy oedd yn penderfynu eu henwebu ar gyfer y taliadau. Atgoffodd y bwrdd hefyd fod ymchwil yn dangos bod menywod yn llai tebygol o deimlo'n gyfforddus yn siarad am arian yn y gweithle ac, felly, yn llai tebygol o ofyn am fonysau. Cytunodd JG ac MS i adolygu'r meini prawf ac ystyried pa mor dda yr oeddent yn cael eu cyfathrebu ar lefel yr Uned Reoli Sylfaenol

## **6. Twyll**

- 6.1 Roedd tîm y Comisiynydd wedi gofyn am ddiweddariad mewn perthynas â thwyll, yn dilyn adroddiad arolygu yr Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (yr Arolygiaeth) ar dwyll yn gynharach yn y flwyddyn. Nododd HJJ mai un o argymhellion yr arolygiad oedd y dylai heddluoedd gyhoeddi amserlen ar gyfer rhoi'r system dwyll ar waith erbyn diwedd mis Medi 2019. Teimlai HJJ ei bod hi'n bryd cael diweddariad, yn enwedig gan fod adroddiad yr Arolygiaeth ar bobl hŷn hefyd wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar, lle roedd yn ymddangos bod achosion o orgyffwrdd â thwyll hefyd.
- 6.2 Gwahoddodd LJ yr arweinwyr heddluoedd Alistair Mitchell a Nick Bellamy o'r Uned Troseddau Economaidd, i roi diweddariad ar ymateb yr heddlu i dwyll.
- 6.3 Dywedodd AM wrth y bwrdd fod fersiwn ddrafft o bolisi twyll Heddlu De Cymru wedi'i dosbarthu fel rhan o bapurau'r cyfarfod, ond nododd fod gwaith yn mynd rhagddo i fireinio'r derminoleg ymhellach. Dywedodd AM mai nod y polisi oedd cymhwyso disgyblaeth at y ffordd yr oedd yr heddlu'n asesu twyll, gan ystyried yn arbennig y ffactorau gwahanol yn ymwneud â thwyll, a phwy oedd yn y sefyllfa orau i ymchwilio i'r rhain. Ni chafwyd yr eglurder hwn yn flaenorol.
- 6.4 Dywedodd AM wrth y bwrdd fod yr heddlu wedi bod yn cydweithio â Heddlu Dinas Llundain, sef yr arweinydd cenedlaethol ym maes twyll, er mwyn trafod argymhellion yr Arolygiaeth. Roedd yr heddlu yn manteisio ar Heddlu Dinas Llundain fel 'cyfaill beirniadol a chefnogol' i'w helpu i adolygu achosion sy'n mynd rhagddynt.
- 6.5 Er mwyn sicrhau bod prosesau trylwyr ar waith i adolygu ymchwiliadau, dywedodd AM fod yr heddlu wedi trefnu buddsoddiad ychwanegol mewn hyfforddiant ar dwyll. Nododd AM fod achosion a oedd yn cael cymorth arbenigol yn fwy tebygol o gyflawni canlyniadau gwell.

- 6.6 Rhoddodd AM drosolwg i'r bwrdd o rôl y pwynt cyswllt unigol ar gyfer twyll. Dywedodd AM mai nod y pwyntiau cyswllt unigol oedd helpu swyddogion ymateb gydag ymchwiliadau i dwyll, naill ai gydag elfen ariannol neu hebddi. Byddai swyddogion yn gallu cydweithio â'u pwynt cyswllt unigol i gael unrhyw wybodaeth berthnasol a allai eu cynorthwyo gyda'u hymchwiliad.
- 6.7 Rhoddodd AM drosolwg i'r bwrdd o Action Fraud a dywedodd mai'r unig ffordd y gellid rhoi gwybod i'r heddlu am achos o dwyll oedd drwy Action Fraud, sef dull adrodd ar gyfer y DU gyfan. Roedd y dull hwn o adrodd wedi bod yn ddryslyd i ddiodefwyr o ran pwy y dylent roi gwybod iddo am dwyll. Rhoddodd yr heddlu sicrwydd i'r bwrdd bod eithriadau i'r broses adrodd hon, ac y byddai dull THRIVE yn cael ei gymhwyso yn yr heddlu, e.e. os byddai person agored i niwed hŷn yn rhoi gwybod i'r heddlu yn uniongyrchol am achos o dwyll, byddai'r heddlu'n ymdrin â'r achos ar unwaith ac yn cymhwyso proses Action Fraud yn ddiweddarach. Nododd AM y gallai'r heddlu hefyd roi gwybod am achos o dwyll ar ran diodefwr, ar yr amod bod yr unigolyn yn cydsynio i hynny.
- 6.8 Trafododd AM y pryderon yn ymwneud ag Action Fraud a nododd nad oedd yr heddlu'n gweld 90% o'r achosion o dwyll y rhoddwyd gwybod i Action Fraud amdanynt. Dim ond canran yr achosion yr ystyriwyd eu bod yn cynnwys elfen droseddol y dylid ymchwilio iddi yr oedd Action Fraud yn eu cyfeirio at yr heddlu. O ganlyniad hyn, dim ond y ganran fach o achosion a drosglwyddwyd iddo y gallai'r heddlu eu hadolygu. Dywedodd AM eu bod yn cyfarfod yn rheolaidd ag Action Fraud i geisio mynd i'r afael â'r materion hyn. Dywedodd LJ fod y Comisiynydd hefyd yn ymwybodol o'r materion a godwyd, a dywedodd fod y Comisiynydd wedi nodi'r pryderon hyn yn ei ymateb i adroddiad yr Arolygiaeth ar bobl hŷn.
- 6.9 Dywedodd AM wrth y bwrdd fod yr heddlu'n craffu'n wythnosol ar restrau diodefwyr gan Action Fraud. Roedd adolygu'r rhestrau diodefwyr yn galluogi'r heddlu i dynnu geiriau allweddol er mwyn nodi pa mor agored i niwed oedd y diodefwyr dan sylw a helpu i nodi diodefwyr mynych. Lle y bo'n briodol, gellid wedyn trosglwyddo gwybodaeth i'r swyddog diogelu ariannol i'w chyfeirio ymhellach. Nododd AM nad oedd unrhyw ganllawiau cenedlaethol ar restrau diodefwyr.
- 6.10 Trafododd y bwrdd bwysigrwydd cynnwys asiantaethau eraill megis safonau masnach yn y trafodaethau hyn, gan gytuno y byddai trafodaethau lleol â phartneriaid yn helpu i wella'r darlun lleol ac yn cynorthwyo'r broses o nodi grwpiau troseddau yn ffurfiol. Cynigiodd LJ rannu cysylltiadau mewn llywodraeth leol a chanolfannau chyngor ar bopeth er mwyn i'r heddlu gysylltu â nhw.

## **CAMAU GWEITHREDU**

- Rhannu cysylltiadau mewn Llywodraeth Leol a Chanolfannau Cyngor ar Bopeth ag Alistair Mitchell
- Uwchgyfeirio materion a godwyd mewn perthynas ag Action Fraud i Fwrdd Strategol y Comisiynydd.

## **7. Diweddariadau gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi**

7.1 Dywedodd CW wrth y bwrdd am arolygiadau o Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu (PEEL) ac arolygiadau thematig a oedd i ddod, ynghyd â dyddiadau cyhoeddi'r adroddiadau.

## **8. Unrhyw Fater Arall**

Gofynnodd LJ i MS am ddiweddariad ar hynt rhaglen recriwtio pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig beilot Prifysgol De Cymru. Dywedodd MS fod cryn ddiddordeb yn y rhaglen, ond bod cyfraddau canlyniadau yn awgrymu efallai nad yw ymgeiswyr yn elwa cymaint ar y rhaglen ag y gallent. Nododd MS fod lle i wella a bod hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Awgrymodd LJ y byddai'n ddefnyddiol rhoi diweddariad i dîm y Comisiynydd.

### **CAMAU GWEITHREDU**

- Rhoi diweddariad ar y rhaglen recriwtio pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig beilot i dîm y Comisiynydd